**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL GWASANAETHAU RHEILFFORDD I DEITHWYR (PERCHNOGAETH GYHOEDDUS)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os bydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y *Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus*) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf 2024. Mae'r Bil ar gael yn: Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)

**Amcan y polisi**

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw dileu'r rhagdybiaeth o blaid gweithredu gwasanaethau masnachfraint i deithwyr gan y sector preifat yn Neddf Rheilffyrdd 1993 ('Deddf 1993'). Bydd hyn yn hwyluso ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddod â gweithrediadau trên o'r fath yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus pan fydd contractau masnachfraint presennol yn dod i ben.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Noddir y Bil gan yr Adran Drafnidiaeth.

5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer y canlynol:

    i. Diwygio darpariaethau penodol yn Neddf 1993 i ddileu'r rhagdybiaeth o blaid gweithredu gwasanaethau masnachfraint i deithwyr gan y sector preifat i hwyluso ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddod â gweithrediadau trên o'r fath yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus pan fydd contractau masnachfraint presennol yn dod i ben.

    ii. Galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban a/neu Weinidogion Cymru, fel yr awdurdodau masnachfreinio priodol, i sicrhau bod gwasanaethau teithwyr rheilffordd dynodedig yn cael eu darparu drwy gontractau â gweithredwyr y sector cyhoeddus ac i ddechrau'r broses bontio i weithrediad y sector cyhoeddus wrth i gontractau presennol gyrraedd eu dyddiad gorffen neu bwynt terfynu contract.

    iii. Datgymhwyso'r gofyniad o dan reoliad 22 o Reoliadau Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth

2023/1369 (“Rheoliadau 2023”) i roi o leiaf 12 mis o hysbysiad cyn dyfarnu contractau o'r fath i gwmnïau'r sector cyhoeddus.

iv. Dileu'r pŵer i ddyfarnu masnachfreintiau i weithredwyr y sector preifat drwy broses dendro gystadleuol a'r gofyniad i gyhoeddi datganiad ar sut y bydd y pŵer hwnnw'n cael ei arfer.

v. Yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud dyfarniadau neu estyniadau byr pellach i weithredwyr presennol y sector preifat pan fo'n fodlon, bryd hynny, na fydd yn rhesymol ymarferol i ddarparu na sicrhau darpariaeth gwasanaethau rheilffordd i deithwyr drwy ddyfarnu contract i gwmni sector cyhoeddus.

6. Holodd Llywodraeth y DU a yw Gweinidogion Cymru yn dymuno i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys i'w pwerau hwy o dan Ddeddf 1993 yn ogystal â rhai'r Ysgrifennydd Gwladol.

7. Trosglwyddodd Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rheilffyrdd) 2018 swyddogaethau penodol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth o dan Ddeddf 1993 i Weinidogion Cymru, gan gynnwys cyfrifoldeb i bennu telerau ac amodau masnachfraint Cymru a'r Gororau.

8. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau rheilffordd ym masnachfraint Cymru a'r Gororau yn cael eu darparu gan Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (Rheilffyrdd TrC), sef is-gwmni Trafnidiaeth Cymru (TrC), sy'n gweithredu fel Gweithredwr Dewis Olaf sector cyhoeddus.

9. Unwaith y bydd y weithdrefn Gweithredwr Dewis Olaf yn dod i ben, ni fyddai gweithredwr sector cyhoeddus yn gallu gwneud cais am fasnachfraint Cymru a'r Gororau. Er bod Deddf yr Alban 2016 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnig gweithredwr sector cyhoeddus am fasnachfreintiau yn yr Alban, nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfatebol i Gymru.

10. Bydd darpariaethau yn y Bil yn caniatáu i weithredwr sector cyhoeddus barhau i weithredu gwasanaethau Cymru a'r Gororau a dileu'r angen am broses dyfarnu contract.

11. Mae hyn yn bodloni un o uchelgeisiau hirdymor Llywodraeth Cymru. Bydd yn sicrhau safle Rheilffyrdd TrC fel gweithredwr gwasanaethau sector cyhoeddus o dan awdurdod Gweinidogion Cymru. Bydd hyn yn ein galluogi i fanteisio i'r eithaf ar integreiddio rheilffyrdd â mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig bysiau, drwy Fil Bysiau Cymru sydd yn yr arfaeth.

12. Mae gweithredwyr y sector preifat, gan gynnwys Great Western Railways, Avanti, a CrossCountry, yn darparu gwasanaethau trawsffiniol o dan gontractau Llywodraeth y DU. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw rôl yn y gwasanaethau hyn, a fydd yn cael eu heffeithio gan y Bil.

13. O ystyried pwysigrwydd y gwasanaethau hyn ar gyfer economi a chysylltedd Cymru, byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y Bil Diwygio Rheilffyrdd sydd ar y gweill yn darparu rôl i Weinidogion Cymru.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

14. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a ganlyn i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig, sef addasu swyddogaethau datganoledig, ac addasu swyddogaethau caffael cyhoeddus awdurdod Cymreig datganoledig y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â hwy.

Cymal 1: Gwahardd estyniadau masnachfraint a masnachfreintiau newydd

15. Mae cymal 1 yn disodli adrannau 25 i 26ZA o Ddeddf 1993 gydag adran newydd 25A sy'n gwahardd Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban rhag estyn cytundebau masnachfraint presennol neu ymrwymo i gytundebau masnachfraint newydd.

16. Mae cymal 1 hefyd yn gymwys i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn ddarostyngedig i'r pŵer newydd arfaethedig a fewnosodir gan gymal 2 (parhad dros dro masnachfreintiau presennol).

Cymal 2: Darparu gwasanaethau yn y dyfodol

17. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i ddarparu neu sicrhau bod gwasanaethau teithwyr rheilffordd yn cael eu darparu pan fo cytundeb masnachfraint mewn perthynas â'r gwasanaethau yn cael ei derfynu neu fel arall yn dod i ben.

18. Mae cymal 2 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyflawni'r ddyletswydd honno dim ond drwy ddyfarnu contract gwasanaeth cyhoeddus yn uniongyrchol i gwmni sector cyhoeddus.

19. Darperir pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â masnachfreintiau a weithredir gan y sector preifat a'u rheoli wrth iddynt ddechrau cael eu gweithredu gan y sector cyhoeddus.

20. Mae hynny'n cynnwys pŵer i ymrwymo i gytundebau masnachfraint newydd, neu estyn cytundebau masnachfraint sy'n bodoli eisoes pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod masnachfreinio ac yn fodlon na ellir darparu gwasanaethau masnachfreinio. Bydd hyn yn effeithio ar fasnachfreintiau trawsffiniol Llywodraeth y DU y tu allan i awdurdod Gweinidogion Cymru.

21. Mae gofynion penodol y gyfundrefn gaffael a gynhwysir yn Rheoliadau 2023 yn cael eu datgymhwyso o ddyfarniadau uniongyrchol a threfniadau a wneir mewn perthynas â masnachfreintiau a weithredir gan y sector preifat.

Cymal 3

22. Yn darparu pŵer canlyniadol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan y Bil.

Cymal 4

23. Yn gosod rhychwant tiriogaethol y Bil i Gymru a Lloegr a'r Alban.

Yr Atodlen

24. Cyfeirir at y cysyniad o fasnachfreinio drwy gydol Deddf 1993. Gan fod y Bil yn gweithredu newid oddi wrth fasnachfreinio'r sector preifat, tuag at weithredu gwasanaethau teithwyr rheilffordd dynodedig gan gwmnïau sector cyhoeddus, mae'r atodlen yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf 1993 sy'n ganlyniadol ar y Bil.

**Barn Llywodraeth y DU am yr angen i gael cydsyniad**

25. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer:

   i. Cymal 1
   ii. Cymal 2
   iii. Cymal 3
   iv. Cymal 4
   v. Yr Atodlen

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)**

26. Prif bwnc y Bil yw darparu gwasanaethau rheilffordd i deithwyr. Mae'r Bil hefyd yn cyffwrdd â chaffael i'r graddau y mae'n addasu cymhwysiad Rheoliadau 2023.

27. Mae gwasanaethau rheilffordd (“railway services”) yn fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 117 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae gan y Senedd gymhwysedd mewn perthynas â swyddogaethau caffael cyhoeddus awdurdod Cymreig datganoledig yn unol â pharagraff 194 o'r Ddeddf honno.

28. Trosglwyddodd Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rheilffyrdd) 2018 bwerau gweithredol o dan Ddeddf 1993 i Weinidogion Cymru. Bydd y pwerau hynny'n cael eu hestyn mewn ffordd na ellid ei chyflawni drwy Ddeddf gan y Senedd o ystyried y cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol.

29. Felly, ystyrir ei bod yn briodol i ddarpariaeth o ran Cymru gael ei gwneud drwy'r Bil.

30. Ni fydd y Senedd yn gweld unrhyw newidiadau i'w chymhwysedd deddfwriaethol.

31. Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau yn unol â'n huchelgais i gael gweithredwr rheilffordd sector cyhoeddus yng Nghymru yn y tymor hir.

32. Mae'r rheilffordd yn wasanaeth cyhoeddus sylfaenol sy'n perthyn i ni i gyd, ac mae ei le yn y sector cyhoeddus yn hytrach nag yn nwylo cyfranddalwyr a buddsoddwyr preifat.

33. Rydym eisoes yn dangos manteision gweithredwr rheilffordd sy'n eiddo cyhoeddus, gyda Trafnidiaeth Cymru yn canolbwyntio ar gyflawni ar ran pobl, nid elw.

34. Nodwyd ein blaenoriaethau ar gyfer diwygio'r rheilffyrdd yng Nghymru eisoes i'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Drafnidiaeth. Byddwn yn gweithio gyda hwy wrth i ni barhau i wella gwasanaethau i deithwyr rheilffordd ledled Cymru a'r Gororau.

35. Nid yw'r Bil hwn yn cyflawni'r nod ehangach o fwy o ddatganoli gyda setliad cyllido teg.

**Goblygiadau ariannol**

36. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau Cymru a'r Gororau gael eu darparu gan gwmni sector cyhoeddus yn hytrach na thrwy gontract gyda gweithredwr sector preifat.

37. Mae Gweinidogion Cymru yn darparu cymorth ariannol ar hyn o bryd, ac mae'n debygol y byddai cwmni sector cyhoeddus parhaus yn dal i fod angen cymorth ariannol. Mae posibilrwydd y bydd y gwariant a ysgwyddir yn cynyddu.

38. Drwy gadw gweithredwr sector cyhoeddus, ni fydd proses gaffael gostus a llafurus ar gyfer gweithredwr sector preifat.

**Casgliad**

39. Yn fy marn i, mae'n briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU oherwydd, er bod gan y Bil effeithiau sylweddol ar faterion datganoledig, mae gwasanaethau rheilffordd yn fater a gedwir yn ôl na allai'r Senedd ddeddfu arno.

40. Mae'r cymalau yn y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru a fydd yn darparu parhad gyda darparwr presennol masnachfraint Cymru a'r Gororau, Rheilffyrdd TrC. Byddant hefyd yn ein galluogi i barhau i integreiddio'r rheilffyrdd â bysiau, drwy Fil Bysiau Cymru sydd yn yr arfaeth.

41. Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.

**Ken Skates AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**1 Awst 2024**